**Sue Tranka**
**Prif Swyddog Nyrsio**
**Chief Nursing Officer**
**Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru**
**Nurse Director NHS Wales**

**Alex Slade**
**Director of Primary Care and Mental Health**
**Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Brif Swyddogion Gweithredol
Is-gadeiryddion
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol

25 Ionawr 2023

Annwyl Gyfeillion,

**Manyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu (Mehefin 2021) yn nodi'r 10 amcan llesiant a ddefnyddir gan y Llywodraeth i sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y saith nod llesiant tymor hir, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Un o'r amcanion allweddol yw darparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd da drwy nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys gwella mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

Yn ystod 2021-2022, mae'r Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol wedi goruchwylio darn o waith sylweddol a arweiniwyd gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, i ddatblygu Manyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol. Mae'n bleser gennym lansio'r fanyleb hon, y gyntaf o'i bath yng Nghymru, sydd wedi ei hamgáu, ac sydd ar gael yn yr Adnodd Seilwaith Cymunedol. Mae'r fanyleb yn amlinellu'r gofynion sylfaenol o ran sut mae gwasanaethau nyrsio cymunedol (gan gynnwys nyrsys ardal, nyrsys ymarfer cyffredinol a nyrsys arbenigol) yn gweithio gyda'i gilydd a chydag aelodau eraill o'r tîm amlbroffesiynol, i fodloni anghenion pobl 16 oed ac yn hŷn. Bydd yn gwneud y canlynol:

- **Safoni** gofal lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau amrywio a gwella ansawdd
- **Symleiddio** systemau a phrosesau i wella profiad pobl a gwneud bywydau gwaith nyrsys yn haws
- **Hyrwyddo cydweithio** rhwng nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill o amgylch y person

Er mwyn helpu i gyflawni uchelgeisiau'r fanyleb, rydym yn nodi nifer o gerrig milltir allweddol ar gyfer 2023-24 isod.

**Cerrig Milltir Allweddol 2023-24**

Erbyn 31 Mawrth 2023

- Mae Byrddau Iechyd yn gwneud Hunanasesiad y Fanyleb Nyrsio Cymunedol ac yn datblygu cynllun gweithredu a berchnogir yn lleol sy'n amlinellu sut y bydd gwasanaethau nyrsio cymunedol yn dechrau bodloni gofynion y Fanyleb. Dylai hyn gael ei gyflwyno i Paul Labourne (paul.labourne@wales.gov.uk)

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email: QualityAndNursing@gov.wales

- Yr hunanasesiad i'w rannu â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a byrddau iechyd er mwyn nodi unrhyw gymorth cenedlaethol angenrheidiol.

Ebrill - Mai 2023

- Cynyddu capasiti gofal diwedd oes (mae hyn yn amodol ar gadarnhau cyllid, a bydd y sefyllfa'n cael ei chadarnhau ym mis Chwefror)

Erbyn 30 Mehefin 2023

- Cynnig goruchwylio eglur i Nyrsys Ardal, Nyrsys Arbenigol a Nyrsys Ymarfer Cyffredinol mewn practisau a reolir gan Fyrddau Iechyd, sef **o leiaf** un sesiwn oruchwylio adferol bob chwe mis.

Erbyn 30 Medi 2023

- Gweithredu ymateb i atgyfeiriadau dwy awr, 72 awr, a 10 diwrnod gwaith, gan Dimau Nyrsys Ardal a Thimau Nyrsys Arbenigol Cymunedol.
- Atgyfeiriadau uniongyrchol i Wasanaethau Nyrsys Ardal y tu allan i oriau gan Wasanaethau Gofal Brys, gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau Meddygon Teulu, 111, a chlinigwyr Desg Cymorth Clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Pharafeddygon lle bo llwybrau atgyfeirio uniongyrchol yn bodoli ac yn weithredol.
- Gweithredu sgôr eiddilwch ar draws yr holl wasanaethau nyrsio cymunedol.

Erbyn 31 Hydref 2023

- Capasiti nyrsio ardal ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn ystod y dydd ar isafswm lefel o 60% o'r capasiti nyrsio ardal ar ddiwrnod arferol yn ystod yr wythnos
- Pob Bwrdd Iechyd yn gallu darparu mynediad at Wasanaethau Nyrsys Ardal dros nos i gleifion

Tachwedd - Rhagfyr 2023

- Y Byrddau Iechyd i ddiweddaru hunanasesiadau gan nodi unrhyw gamau gweithredu y dylid eu cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024.

Rwy'n hyderu y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu i alluogi a chefnogi'r gwaith i gyrraedd y cerrig milltir uchod, a fydd yn helpu i sicrhau bod y gofal a ddarperir gan wasanaethau nyrsio cymunedol yn ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg yn unol â'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch: Dysgu a Gwella (llyw.cymru). Bydd hyn yn ei dro yn dod â manteision i'r system ehangach, gan gynnwys atal presenoldebau amhriodol mewn adrannau argyfwng a derbyniadau i'r ysbyty; rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol; a chadw nyrsys cymunedol. Mae hyn i gyd yn gydnaws â'r Rhaglen Datblygiad Clwstwr Carlam a'r Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gynnal trafodaethau lleol penodol ar weithredu'r Fanyleb Nyrsio Cymunedol a chyflawni'r cerrig milltir, cysylltwch â Chiquita Cusens, Nyrs Arweiniol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol. (chiquita.cusens@wales.nhs.uk).

Yn gywir

**CHIEF NURSING OFFICER**
**NURSE DIRECTOR NHS WALES**
**PRIF SWYDDOG NYRSIO**
**CYFARWYDDWR NYRSIO GIG CYMRU**

**DIRECTOR OF PRIMARY CARE AND MENTAL HEALTH**
**CYFARWYDDWR GOFAL SYLFAENOL AC IECHYD MEDDWL**